# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 9 CHWEFROR 2022

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: E.V.Latham, L.Jones, A.R.Lockyer, D.Jones, M.Harvey, P.A.Rees a/ac P.D.Richards

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, K.Jones, A.Jarrett, M.Shaw, J.Woodman-Ralph, L.Beynon, P.Hinder, H.Jones, C.Plowman a/ac A.Thomas

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd penodi'r Cynghorydd E.V. Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. CROESO A GALW'R RHESTR

Croesawodd y Cyng. E V Latham bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

## 3. CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD

Ni dderbyniwyd unrhyw gyhoeddiadau.

## 4. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr Aelodau canlynol ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod.

Y Cynghorydd S          Parthed: Eitem 8 ar yr agenda

| | |
|---|---|
| Rahaman | Cynigion prosiect a wnaed i Gronfa Gymunedol yr Aelodau, gan fod ganddo gais i Gronfa Gymunedol yr Aelodau i'w ystyried. Teimlai fod ei fuddiant yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno. |
| Y Cynghorydd S Freeguard | Parthed: Eitem 8 ar yr agenda Cynigion prosiect a wnaed i Gronfa Gymunedol yr Aelodau, gan fod ganddi gais i Gronfa Gymunedol yr Aelodau i'w ystyried. Teimlai fod ei buddiant yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno. |

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2022 o ran cywirdeb.

## 6. BLAENRAGLEN WAITH 2021-22

Bod y Flaenraglen Waith ar gyfer 2021/2022 yn cael ei nodi.

## 7. DEDDF TAI (CYMRU) 2014 - YSTYRIED ASESIAD O ANGHENION LLETY SIPSIWN A THEITHWYR CASTELL-NEDD PORT TALBOT

**Penderfyniadau:**

1. Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, cytunir ar fethodoleg a chanfyddiadau'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (2022) fel y'u nodir yn Atodiad 1.

2. Bod awdurdod yn cael ei roi i gyflwyno'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (2022) i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio ag Adran 103 Deddf Tai (Cymru) 2014; Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2023; Deddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015); Deddf Cydraddoldeb (2010); a Pholisi Cynllunio Cymru 11 (2021)

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul, 13 Rhagfyr 2022. Ni dderbyniwyd unrhyw alwadau i mewn.

## 8. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

## 9. CYNIGION PROSIECT A GYFLWYNWYD I GRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU

Ailddatganodd y Cyng. S Rahaman a'r Cyng. S Freeguard eu buddiannau a gadawsant y cyfarfod.

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig caiff y ceisiadau canlynol i Gronfa Gymunedol yr Aelodau eu cymeradwyo:

1. Cais gan y Cynghorwyr R Wood, S Paddison ac O S Davies i sefydlu cyfleuster chwarae'r blynyddoedd cynnar yn Nhir Morfa, Gorllewin Sandfields, fel y nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad a gylchredwyd.

2. Cais gan y Cynghorydd D Lewis i sefydlu cynllun chwaraemynediad agored yn lleoliad cymunedol ‘Building Blocks’ yn Resolfen fel y nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad a gylchredwyd.

3. Cais gan y Cynghorwyr J D Morgan, S Knoyle ac R Lewis i ehangu prosiect Gweithwyr Clwstwr Cwm Nedd Uchaf, fel y nodwyd yn Atodiad C i'r adroddiad a gylchredwyd.

4. Cais gan y Cynghorydd H C Clarke i ychwanegu goleuadau cyhoeddus yng Elba Crescent/Fabian Way yng Ngorllewin Coedffranc, fel y nodwyd yn Atodiad D i'r adroddiad a gylchredwyd.

5. Cais gan y Cynghorwyr S Rahaman, S Freeguard a D Keogh i ddarparu System Trin/Tynnu Aer i Fosg a Chanolfan Islamaidd Port Talbot, fel y nodwyd yn Atodiad E  i'r adroddiad a gylchredwyd.

6. Cais gan y Cynghorydd J Hurley i gynorthwyo Clwb Rygbi Pont-rhyd-y-fen i foderneiddio'u cyfleusterau newid a chael cawod ym Mhelenna, fel y nodwyd yn Atodiad F  i'r adroddiad a gylchredwyd.

7. Cais gan y Cynghorwyr S Rahaman, S Freeguard a D Keogh i ddatblygu murlun celf gyhoeddus mawr yng nghanol tref Port Talbot, fel y nodwyd yn Atodiad G  i'r adroddiad a gylchredwyd.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Galluogi ceisiadau am gyllid o Gronfa Gymunedol yr Aelodau i gael eu cymeradwyo.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn 3 diwrnod sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul, 13 Chwefror 2022.  Ni dderbyniwyd unrhyw alwadau i mewn.

**CADEIRYDD**